**WHC/2016/009**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 1 Ebrill 2016

**STATWS: CYDYMFFURFEDD**

**CATEGORI: LLYTHYR AT WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl:** Canllawiau Amlasiantaeth ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

**Dyddiad dod i ben / Adolygiad**

**I'w weithredu gan:**
*Pob person sydd o dan ddyletswyddau statudol i wneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau gan roi ystyriaeth i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.*

**Camau i'w cymryd erbyn:**

Ar unwaith

**Anfonir gan**: Dr Chris Jones, Prif Swyddog Meddygol Dros Dro/ Cyfarwyddwr Meddygol

**Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**
Anthony Davies, Yr Is-adran Polisi Gofal Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, CF10 3NQ; 02920 823121

**Dogfen(nau))**: Dim

**Dr Chris Jones CB, OBE**
**Prif Swyddog Meddygol Dros Dro/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Acting Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Brif Weithredwyr, GIG Cymru
CC: Arweinwyr FGM ar gyfer Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd

1 Ebrill 2016

Annwyl Brif Weithredwyr

**CANLLAWIAU AMLASIANTAETH FGM**

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn drosedd ac yn fath o drais yn erbyn menywod a merched – ac felly, dyna sut y dylai gael ei drin. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi Canllawiau Arferion Amlasiantaeth diwygiedig ar Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ar gyfer pob person sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus:

https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-statutory-guidance-on-female-genital-mutilation

Mae rhain yn ganllawiau statudol o dan Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. Mae'r canllawiau'n nodi cyfrifoldebau prif weithredwyr, cyfarwyddwyr ac uwch-reolwyr asiantaethau sy'n ymwneud â diogelu a rhoi cymorth i fenywod a merched y mae FGM yn effeithio arnynt. Maent yn ymdrin â materion megis hyfforddiant ar gyfer staff, datblygu polisïau a gweithdrefnau rhyngasiantaethol, codi ymwybyddiaeth a datblygu rhaglenni atal drwy waith allgymorth. Hefyd, mae'r ddogfen hon yn darparu cyngor i weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a diogelu a rhoi cymorth i oedolion sy'n cael eu niweidio gan FGM.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau a sicrhau bod eich sefydliad yn cydymffurfio â'u gofynion. Os oes gennych sylwadau, cysylltwch â'r Is-adran Polisi Gofal Iechyd yn

MajorHealthConditionsPolicy@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

**DR CHRIS JONES**